# Atebion i Gwestiynau nas cyrhaeddwyd yn y Cyfarfod Llawn 5 Gorffennaf 2001

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

1 Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd
5 Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

## Cwestiynau i Ddirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd

### Cwynion am Weithredu Amcan 1

**C8 David Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y ffordd y caiff cwynion am weithredu rhaglen Amcan 1 eu prosesu? (OAQ12406)

**Dirprwy Brif Weinidog Cymru a'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd (Michael German):** Mae penderfyniadau'r partneriaethau i gefnogi prosiectau ai peidio ar sail canllawiau i'r partneriaethau a gymeradwywyd gan Bwyllgor Monitro Rhaglen Amcan 1 ar 22 Mehefin. Mae hyn yn cynnwys proses apelio ddiwygiedig ar gyfer ymgeiswyr na chaiff eu prosiectau eu cefnogi gan y partneriaethau neu na chaiff eu prosiectau eu cymeradwyo gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru.

Caiff cwynion nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â chymeradwyo prosiectau eu trin yn unol â chod ymarfer y Cynulliad. Y tu hwnt i hynny, mae Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru hefyd dan awdurdodaeth Ombwdsmon Gweinyddiaeth Cymru.

### Arian Amcan 1 (Canran a Werir ar Fonitro a Gwerthuso)

**C9 Janet Davies:** Pa ganran o arian Amcan 1 sy'n cael ei gwario ar fonitro a gwerthuso'r rhaglen? (OAQ12397)

**Michael German:** Sefydlwyd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ym mis Ebrill 2000 i weinyddu rhaglenni'r cronfeydd strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru.

Ni ddefnyddiwyd adnoddau Amcan 1 i dalu am gostau monitro a gwerthuso rhaglen Amcan 1 yng Nghymru.

### Cymorth Ychwanegol i'r Diwydiant Twristiaeth yn Ne Cymru

**C10 Lynne Neagle:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i roi cymorth ychwanegol i'r diwydiant twristiaeth yng nghymoedd de Cymru? (OAQ12370)

**Michael German:** Bu i Fwrdd Croeso Cymru, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol a chyrff treftadaeth, gomisiynu cynllun gweithredu treftadaeth y cymoedd, a chomisiynwyd cwmni L&R Consulting i gynnal yr astudiaeth. Cynhyrchwyd adroddiad interim ym mis Mai 2001.

Bydd Bwrdd Croeso Cymru, ar y cyd â'r noddwyr eraill, yn ystyried neilltuo arian ar gyfer rhoi cynllun gweithredu ar waith fel rhaglen benodol i'r Cymoedd.

### Cyllid Cymru (Cyllid Ecwiti a Benthyca)

**C11 Dafydd Wigley:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cyllid ecwiti a benthyca newydd ar gyfer busnesau bach a chanolig sy'n cael ei gynnig gan Gyllid Cymru? (OAQ12413)

**Michael German:** Mae Cyllid Cymru wedi sefydlu cronfa gwerth £46 miliwn, sy'n cynnwys benthyciadau, cyllid ecwiti a mesanîn i gefnogi busnesau bach a chanolig eu maint yn ardal Amcan 1. Mae gobaith y daw dyraniad o £26 miliwn i'r gronfa o gronfeydd datblygu rhanbarthau Ewrop ac mae'r cais, yn awr, yng nghamau terfynol y negodiadau.

Hefyd, cyflwynwyd cynigion sy'n delio â mathau tebyg o fuddsoddiadau i gronfa gwerth £26 miliwn ar gyfer ardaloedd Amcan 2 ac ardaloedd trosiannol Amcan 2, i'r bartneriaeth cronfeydd strwythurol eu hystyried. Ni fydd yn rhaid cyflwyno'r rhain i'r Comisiwn Ewropeaidd i'w cymeradwyo.

Ochr yn ochr â'r lefel bresennol o gymorth, yn sgîl cyflwyno'r cronfeydd newydd hyn, dylai Cyllid Cymru allu cynnig dros £100 miliwn o gefnogaeth i fusnesau bach a chanolig ledled Cymru.

### Hybu Datblygiad Economaidd a Masnachol yn Ne Cymru

**C12 Jonathan Morgan:** Pa gamau y gall y weinyddiaeth eu cymryd i hybu datblygiad economaidd a masnachol yng Nghaerdydd a de Cymru? (OAQ12374) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Hybu Digwyddiadau Twristiaeth yng Nghymru

**C13 David Davies:** Pa fesurau newydd y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cyflwyno i helpu i hybu digwyddiadau twristiaeth yng Nghymru? (OAQ12373)

**Michael German:** Rwyf yn ymwybodol iawn o'r manteision a geir o ddenu digwyddiadau blaenllaw i helpu i godi proffil Cymru yn rhyngwladol. Mae Bwrdd Croeso Cymru yn llunio strategaeth digwyddiadau amlinellol i helpu i symbylu, canfod a denu digwyddiadau pwysig i leoliadau ledled Cymru. Fel rhan o hyn, er enghraifft, rydym yn gobeithio adeiladu ar lwyddiant y gemau pêl-droed a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Stadiwm y Mileniwm ac rydym yn dal i weithio'n galed i sicrhau y daw cystadleuaeth Cwpan Ryder i Gymru yn 2009.

### Cynllun Gweithredu Entrepreneuriaeth

**C14 Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar roi'r cynllun gweithredu entrepreneuriaeth ar waith? (OAQ12371)

**Michael German:** Mae'r panel gweithredu, sydd dan arweiniad y sector preifat, yn goruchwylio'r dasg o fwrw ymlaen ag amrywiaeth cynhwysfawr o gamau i roi hwb i entrepreneuriaeth yng Nghymru, fel a ddisgrifir yn y cynllun gweithredu entrepreneuriaeth a gymeradwywyd gan y Cynulliad.

Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo o bob ongl ac mae'r panel wrthi'n archwilio'r posibilrwydd o sicrhau nawdd Ewropeaidd fel y gellir cynyddu'r gefnogaeth i nifer fwy o ddarpar fusnesau newydd.

Mae gan y Pwyllgor Datblygu Economaidd ddiddordeb mawr yn hyn ac fe'i hysbysir o'r datblygiadau diweddaraf yn rheolaidd.

Gan fod y gwaith hwn yn golygu gweithredu yn aml-asiantaethol ac ar draws y sectorau, mae swyddogion a Gweinidogion priodol y Cynulliad yn cadw mewn cysylltiad agos ynghylch y datblygiadau sy'n mynd rhagddynt.

### Cynhyrchu Ynni Gwynt a Dŵr Alltraeth

**C15 Richard Edwards:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar gyfraniad posibl cynhyrchu ynni gwynt a dŵr alltraeth? (OAQ12415) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Adolygiad o Gymorth Busnes

**C16 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddatblygiadau diweddaraf yr adolygiad o gymorth busnes? (OAQ12382)

**Michael German:** Cynhaliwyd dadl yn y Cynulliad ar fy ymateb arfaethedig i adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 3 Gorffennaf. Ar ôl i'r Cynulliad dderbyn y cynnig fel y'i diwygiwyd, byddaf yn awr yn bwrw ymlaen â'm cynigion. Byddaf yn adrodd am y cynnydd gerbron y Pwyllgor yn yr hydref.

## Swyddi Newydd (Diswyddiadau Corus)

**C17 Nick Bourne:** Pa gamau a gymerwyd i ddod o hyd i swyddi newydd i'r rheiny y mae diswyddiadau Corus wedi effeithio arnynt? (OAQ12392)

**Michael German:** Fel rhan o ymgyrch gydlynys Tîm Cymru, mae asiantaethau allweddol megis Addysg a Dysgu Cymru, yr Asiantaeth Budd-daliadau, Gyrfaoedd Cymru a chynghorwyr ariannol yn darparu cyngor ar-y-safle i'r gweithfeydd yr effeithir arnynt. Mae gan y Gwasanaeth Cyflogi siopau swyddi sy'n cynnig gwasanaethau ar-y-safle yn Shotton, Glyn Ebwy a Llanwern. Mae ELWa wedi gweld dros 1,000 o'r gweithwyr, sy'n ceisio cyngor neu hyfforddiant, o'r gweithfeydd yng Nghymru yr effeithiwyd arnynt.

Bydd y gweithwyr dur a ddiswyddwyd gan Corus ar draws Cymru yn awr yn cael help ychwanegol i ganfod swyddi newydd, diolch i becyn nawdd gwerth £5.3 miliwn a sefydlwyd mewn partneriaeth â'r Cydffederasiwn Masnach Haearn a Dur, ELWa a'r Gwasanaeth Cyflogi yng Nghymru. Mae hwn yn cynnwys £2.3 miliwn o grantiau'r gronfa gymdeithasol Ewropeaidd dan raglenni Amcan 1 a 3 ac arian cyfatebol gan Corus a'r Cynulliad. Bydd y prosiect yn cynnig cymorth sylweddol fel y gall gweithwyr Corus gael swyddi newydd yn gyflym.

Mae'r gwaith yn dal i fynd rhagddo gyda chwmnïau lleol a chenedlaethol i helpu i sicrhau bod y nifer fwyaf posib o swyddi addas ar gael i'r rheini a ddiswyddwyd. Yn ychwanegol at weithgareddau'r prif ffrwd, megis canfod pobl addas ar gyfer swyddi gwag a hysbysebir, mae Glyn Ebwy wedi trefnu nifer o ddigwyddiadau llwyddiannus i gyflogwyr,d a chynhelir digwyddiad swyddi a gwybodaeth yn Llanwern ddechrau mis nesaf. Byddaf yn bresennol yn y digwyddiad hwnnw ac yn cwrdd â'r cyflogwyr a fydd yno.

## Dyfodol Brand Cyswllt Busnes

**C18 Brian Gibbons:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill ar gyfer dyfodol brand Cyswllt Busnes wrth roi cymorth i fusnesau yng Nghymru? (OAQ12366) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Isadeiledd De Orllewin Cymru

**C19 Peter Black:** Pa gynlluniau sydd ar y gweill i wella isadeiledd De Orllewin Cymru er mwyn gwella perfformiad economaidd? (OAQ12379) [R]

**Michael German:** Bwriadaf gadeirio cyfarfod â chynrychiolwyr busnesau ac awdurdodau lleol De Orllewin Cymru i asesu anghenion isadeiledd yr ardal o safbwynt ynni. Bydd y cyfarfod hwn yn edrych yn arbennig ar y galw am nwy, a'r nod fydd cytuno, gyda'n gilydd, ar safbwynt fel sylfaen ar gyfer llunio cynllun strategol.

Mae fframwaith strategol yr oes wybodaeth yn cydnabod ei bod yn hanfodol cael isadeiledd telathrebu y gellir ei fforddio ledled Cymru. Mae'r Cynulliad wedi gweithio'n agos gydag Awdurdod Datblygu Cymru ar yr adroddiad a gomisiynodd ar ba bolisïau y mae'n rhaid eu sefydlu er mwyn cyflawni hyn. Bydd adroddiad yr Awdurdod Datblygu ar gael yn ddiweddarach y mis hwn a chaiff cynllun gweithredu manwl ei lunio erbyn mis Hydref.

Caiff penderfyniadau ynghylch buddsoddiadau i wella'r isadeiledd trafnidiaeth strategol eu gwneud yng ngoleuni'r fframwaith trafnidiaeth a gaiff ei gyhoeddi yn ddiweddarach y flwyddyn hon.

Mae sawl prosiect yn ardal De Orllewin Cymru, sy'n ymdrin â materion mynediad lleol a rhanbarthol, wedi llwyddo i sicrhau nawdd grant trafnidiaeth. Cyhoeddwyd y manylion ar 11 Ionawr 2001 ac mae copi ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad.

**Datblygiad Economaidd a Masnachol yng Nghanol De Cymru**

**C20 David Melding:** Pa gamau y gall y weinyddiaeth eu cymryd i hybu datblygiad economaidd a masnachol yng Nghanol De Cymru? (OAQ12375) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol**

**C21 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y datblygiadau diweddaraf ar y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol? (OAQ12380)

**Michael German:** Daw'r cyfnod ymgynghori ffurfiol ar y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol i ben ar 6 Gorffennaf. Mae'r ymatebion yn dal i ddod i mewn ac rwyf yn trefnu i'r holl ymatebion gael eu rhoi ar wefan y strategaeth. Mae adroddiadau'r pedwar cyfarfod rhanbarthol hefyd i'w gweld ar y wefan honno.

Bydd y swyddogion yn dechrau drafftio cam nesaf y ddogfen, gan ystyried y sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori. Dylai'r drafft fod ar gael ym mis Hydref, ac rydym yn trefnu trafodaeth ar y papur, mewn da bryd, yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd.

**Arian Amcan 1 (Canran a Werir ar Weinyddiaeth)**

**C22 Janet Davies:** Pa ganran o arian Amcan 1 a gaiff ei gwario ar weinyddu'r rhaglen? (OAQ12401) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Swyddi Gweithgynhyrchu a Gollwyd o Fewn Ardal Amcan 1**

**C23 Brian Hancock:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y swyddi gweithgynhyrchu a gollwyd o fewn ardal Amcan 1? (OAQ12412) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Fforwm Ewropeaidd ar yr Adroddiad ar Gydlyniad**

**C24 Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y fforwm Ewropeaidd ar yr adroddiad ar gydlyniad a fynychodd ym Mrwsel yn ddiweddar? (OAQ12404) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cymorth i Fusnesau sydd â Phrinder o Gyfalaf Cyfredol**

**C25 Janice Gregory:** Pa gymorth y mae adran y Gweinidog yn ei gynnig i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru sy'n dymuno ehangu ond sy'n cael eu rhwystro rhag gwneud hynny gan brinder dybryd o gyfalaf cyfredol? (OAQ12369)

**Michael German:** Gall pob cwmni bach yng Nghymru fanteisio ar ddewis cynhwysfawr o wasanaethau cefnogi busnes sydd ar gael drwy gyfrwng y Rhwydwaith Cyswllt Busnes a noddir gan y Cynulliad. Mae'r gwasanaethau hyn yn cynnwys cyngor a chanllawiau ar dwf busnes, sut i lunio cynllun busnes dichonadwy, sut i gael gafael ar gyllid megis ffynonellau cyllid cyfalaf cyfredol posibl ac yn y blaen.

**Tryloywder y Broses o Ddyrannu Cronfeydd ar Gyfer Datblygu Economaidd**

**C26 Alison Halford:** Pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i wneud y broses o ddyrannu cronfeydd ar gyfer datblygu economaidd yn fwy tryloyw fel y gellir olrhain y gwahanol ffynonellau cyllid yn unigol? (OAQ12394)

**Michael German:** Trafodir y prif gynigion am nawdd i gyd gyda'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn ystod cylch cynllunio'r gyllideb. Gwneir unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn dan drefniadau Rheol Sefydlog Rhif 19, a chaiff y Pwyllgor gyfle i weld y newidiadau arfaethedig cyn eu cwblhau.

Caiff y Pwyllgor gyfle i drafod yn fanwl gynlluniau busnes ac amcanion strategol asiantaethau allweddol megis Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru. Hefyd, cyflwynir adroddiadau rheolaidd i'r Pwyllgor am yr asiantaethau hyn ac am raglenni a chyllidebau sylweddol, megis y rhaglenni cronfeydd strwythurol a chymorth dethol rhanbarthol.

Felly mae'r broses ar gyfer gwneud penderfyniadau sylweddol am nawdd, a'u monitro, eisoes yn dryloyw ac agored.

### Sgil-effeithiau Clwy'r Traed a'r Genau ar Fusnesau Twristiaeth

**C27 Karen Sinclair:** Pa fesurau sydd yn eu lle i helpu busnesau bach sy'n ddibynnol ar dwristiaeth sydd wedi dioddef sgil-effeithiau clwy'r traed a'r genau? (OAQ12396)

**Michael German:** Mae llawer o fesurau eisoes wedi'u sefydlu ers cryn amser. Byddaf yn trefnu i gopi o'r daflen wybodaeth gael ei hanfon atoch; mae'n esbonio'r cymorth sydd ar gael i fusnesau gwledig yng Nghymru.

Mae grŵp gorchwyl a gorffen y Cynulliad ar faterion gwledig wrthi'n pwyso a mesur cynigion i helpu sawl sector o'r busnesau gwledig yn yr hirdymor a'r tymor canolig. Mae hyn yn cynnwys cynllun adfer ar gyfer y diwydiant twristiaeth.

### Hyrwyddo Menter yng Nghymru

**C28 Gareth Jones:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Ddiwydiant a Masnach ar bolisïau i hyrwyddo menter yng Nghymru? (OAQ12407) ***Tynnwyd yn ôl.***

### Y Diwydiant Twristiaeth yn Sir Fynwy

**C29 David Davies:** Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau nad yw'r diwydiant twristiaeth yn sir Fynwy yn cael ei niweidio o ganlyniad i bolisïau'r Cynulliad? (OAQ12372)

**Michael German:** Wrth lunio ei bolisïau, mae'r Cynulliad yn ystyried eu heffeithiau ehangach, boed y rheini yn effeithiau cadarnhaol ynteu negyddol. Pryd bynnag y bo'n berthnasol, ystyrir effeithiau polisïau ar sectorau megis twristiaeth.

### Polisïau ar Gyfer Busnesau Bach yng Nghymru

**C30 Brian Hancock:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Ysgrifennydd Gwladol newydd dros Ddiwydiant a Masnach ar bolisïau ar gyfer busnesau bach yng Nghymru? (OAQ12411) ***Tynnwyd yn ôl.***

## Cwestiynau ar Gyllid i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau

### Mesurau Rhyddhad Treth ar Gyfer Busnesau yr Effeithiwyd arnynt oherwydd Clwy'r Traed a'r Genau

**C1 Richard Edwards:** A all y Gweinidog roi'r diweddaraf am effeithiolrwydd mesurau rhyddhad treth ar gyfer busnesau yng Nghymru yr effeithiwyd arnynt oherwydd clwy'r traed a'r genau? (OAQ12439) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig dan bortffolio llywodraeth leol a chymunedau y Gweinidog.***

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Yn fuan, byddaf yn adolygu sut y defnyddiwyd y grant arbennig o £12 miliwn gan awdurdodau lleol, a byddaf yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai maes o law.

*Atebwyd cwestiynau 2 i 6 yn y Cyfarfod Llawn.*

**Cyllideb ar Gyfer y Flwyddyn Ariannol Hon**

**C7 Brian Hancock:** Pryd y bydd y Gweinidog yn rhoi ei hadroddiad nesaf i Gyfarfod Llawn y Cynulliad ar hynt ei chyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol hon? (OAQ12424) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Edwina Hart:** Yn amodol ar gytundeb y Llywydd, bwriadaf gyflwyno cynnig gerbron y Cynulliad ym mis Rhagfyr, fel ag y gwneuthum yn ystod y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf. Bydd y cynnig hwn yn cynnwys manylion newidiadau'r prif grŵp gwariant i'r prif grŵp gwariant, trosglwyddiadau yn ystod y flwyddyn yn ôl a blaen o adrannau'r Llywodraeth, yr arian ychwanegol a neilltuwyd o amcangyfrif ategol gaeaf 2001-02 a'r trosglwyddiadau o gronfa uchafswm gwariant adrannol y Trysorlys.

*Atebwyd cwestiwn 8 yn y Cyfarfod Llawn.*

**Tanwario yng Nghyllideb y Cynulliad**

**C9 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar lefel y tanwario yng nghyllideb y Cynulliad yn y flwyddyn ariannol 2000-01? (OAQ12390) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig.***

**Edwina Hart:** Gwnaf ddatganiad ysgrifenedig i holl Aelodau'r Cynulliad cyn y toriad am y gwariant yn ystod blwyddyn ariannol 2000-01 ynghyd ag am ym mhle y digwyddodd y prif danwariant.

**Grantiau Uniongyrchol i Achlysuron a Sefydliadau yr Effeithiwyd Arnynt Oherwydd Clwy'r Traed a'r Genau**

**C10 Karen Sinclair:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad byr ar y grantiau uniongyrchol a ddyfarnwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru i achlysuron a sefydliadau yr effeithiwyd arnynt oherwydd clwy'r traed a'r genau? (OAQ12416) ***Trosglwyddwyd ar gyfer ateb ysgrifenedig dan bortffolio llywodraeth leol a chymunedau y Gweinidog.***

**Edwina Hart:** Ni ddyfarnwyd unrhyw grantiau uniongyrchol i sefydliadau y mae clwy'r traed a'r genau wedi effeithio arnynt. Fodd bynnag, yr wyf wedi rhoi £12 miliwn yn ychwanegol mewn arian grant arbennig i awdurdodau lleol i'w galluogi i roi cymorth ariannol i fusnesau yn eu hardal y mae'r clwyf wedi effeithio arnynt. Rhoddwyd cymaint â phosibl o hyblygrwydd i awdurdodau lleol i benderfynu sut i ddefnyddio'r grant hwn i fynd i'r afael ag effaith economaidd yr afiechyd.

Cyhoeddodd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg hefyd ym mis Ebrill y byddai'n rhoi cefnogaeth ychwanegol gwerth £150,000 i fudiad ieuenctid Cymru, Urdd Gobaith Cymru. Bydd y grant yn helpu'r Urdd i ailsefydlu gweithgareddau a chynnal ymgyrch aelodaeth yn yr hydref. Caiff y grant ei dalu i Fwrdd yr Iaith Gymraeg a fydd yn cytuno ar dargedau manwl gyda'r Urdd ar gyfer defnyddio'r grant hwn.

**Rheoli'r Tanwario yng Nghyllideb y Cynulliad**

**C11 Brian Gibbons:** A all y Gweinidog wneud datganiad ar ei strategaeth ar gyfer rheoli'r tanwario yng nghyllideb y Cynulliad? (OAQ12418) ***Tynnwyd yn ôl.***

*Atebwyd cwestiwn 12 yn y Cyfarfod Llawn.*

**Defnyddio Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat**

**C13 David Melding:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi'r weinyddiaeth ar ddefnyddio partneriaethau cyhoeddus-preifat i gyllido a chyflawni prosiectau'r Cynulliad? (OAQ12423) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Dylanwad ar Wariant Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad**

**C14 Peter Black:** Pa ddylanwad sydd gan y Gweinidog ar wariant cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad? (OAQ12387) [R]

**Edwina Hart:** Penderfynir ar yr arian cyhoeddus a ryddheir i'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad fel rhan o gylch cynllunio cyllideb flynyddol y Cynulliad, ac yng nghyd-destun y cynlluniau busnes a'r cynlluniau corfforaethol a gyflwynir i'r Cynulliad sy'n nodi eu targedau yn y tymor byr a'r tymor canolig. Anfonir llythyr cylch gwaith blynyddol i'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad gan y Gweinidog priodol yn y Cynulliad sy'n esbonio'n glir yr hyn a ddisgwylir i'r sefydliad ei gyflawni ar gyfer y flwyddyn ariannol berthnasol. Mae gan holl adrannau nawdd y Cynulliad drefniadau monitro gwariant pendant ar waith, ac mae memorandwm ariannol a datganiad rheoli pob corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad yn disgrifio dan ba amgylchiadau y mae'n rhaid i'r sefydliad geisio cymeradwyaeth benodol ar gyfer trafodion ariannol (megis dibrisio gwariant).

**Defnyddio Dyraniadau Cyllid yn Brydlon**

**C15 Pauline Jarman:** A wnaiff y Gweinidog sôn am y camau y gall eu cymryd i sicrhau bod pob adran yn defnyddio'i dyraniadau cyllid yn brydlon? (OAQ12429)

**Edwina Hart:** Bwriadaf gwrdd â'm Cyd-aelodau yn y Cabinet i gynnal adolygiad canol-blwyddyn o'r gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Yn ogystal â thrafod unrhyw bwysau a llithriant a ddisgwylir yn y gwariant a fwriadwyd, hoffwn hefyd ystyried unrhyw gynigion ar gyfer dwyn ymlaen adnoddau nas gwariwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Byddaf yn parhau i adolygu'r gwariant drwy gydol y flwyddyn ariannol, gyda'r bwriad o sicrhau bod y gwariant yn ystod blwyddyn ariannol 2001-02 yn adlewyrchu'n agosach y cyllidebau a gymeradwywyd gan y Cynulliad.

**Dyfodol Cyllido Prosiectau drwy Bartneriaethau Cyhoeddus-Preifat**

**C16 Geraint Davies:** A wnaiff y Gweinidog adrodd ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael gyda Gweinidogion Llywodraeth newydd y DU am ddyfodol cyllido prosiectau'r Cynulliad drwy bartneriaethau cyhoeddus-preifat yng Nghymru? (OAQ12427)

**Edwina Hart:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gydag unrhyw Weinidog o Lywodraeth newydd y DU am y mater hwn.

**Defnyddio Deunyddiau Cynaliadwy i Godi Adeilad Newydd y Cynulliad**

**C17 Richard Edwards:** Beth y mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod deunyddiau cynaliadwy yn cael eu defnyddio i godi adeilad newydd y Cynulliad? (OAQ12421) ***Tynnwyd yn ôl.***

**Cyllid a Dynnwyd i Lawr gan Gyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad**

**C18 Janet Davies:** A wnaiff y Gweinidog adrodd faint o'u cyllid penodedig y mae'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad wedi'i dynnu i lawr hyd yma? (OAQ12434)

**Edwina Hart:** Hyd at 31 Mai, a chan gynnwys y dyddiad hwnnw, dyma'r wybodaeth y gofynnwyd amdani:

| | **£000oedd** |
|---|---|
| **Corff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad** | ***Gwariant*** |
| Awdurdod Datblygu Cymru | **13,001** |
| Bwrdd Croeso Cymru | **3,007** |
| Y Cyngor Cenedlaethol dros Addysg a Hyfforddiant i Gymru | **53,784** |
| Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru | **64,816** |
| Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru | **435** |
| Amgueddfeydd ac Orielau Cymru | **1,200** |
| Llyfrgell Genedlaethol Cymru | **1,211** |
| Cyngor Celfyddydau Cymru | **5,280** |
| Cyngor Chwaraeon Cymru | **1,217** |
| Bwrdd yr Iaith Gymraeg | **869** |
| Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru | **237** |
| Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru | **8** |
| Bwrdd Cenedlaethol Cymru ar gyfer Nyrsio, Bydwreigiaeth ac Ymweliadau Iechyd | **235** |
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru | **6,511** |
| Cyfanswm | **151,811** |

**Dyfodol y Trefniadau Cyllido ar gyfer Cymru**

**C19 Phil Williams:** A yw'r Gweinidog wedi cael trafodaethau gyda Phrif Ysgrifennydd newydd y Trysorlys ar ddyfodol y trefniadau cyllido ar gyfer Cymru? (OAQ12436)

**Edwina Hart:** Nac ydw. Serch hynny, yr wyf yn adolygu'r trefniadau cyllido ar gyfer y Cynulliad yn rheolaidd.

**Cyllideb 2002-03 y Cynulliad**

**C20 Gareth Jones:** A yw'r Gweinidog wedi cael trafodaethau gyda Phrif Ysgrifennydd newydd y Trysorlys ar gyllideb y Cynulliad Cenedlaethol yn 2002-03? (OAQ12437)

**Edwina Hart:** Pennwyd cyfanswm cyllideb y Cynulliad ar gyfer 2002-03 yn adolygiad o wariant 2000 a chyllideb Mawrth 2001.

**Cyllid o'r Fenter Cyllid Preifat**

**C21 Alun Cairns:** Sut y mae'r Gweinidog yn pwyso a mesur pa brosiectau sydd yn deilwng o dderbyn cyllid o'r fenter cyllid preifat? (OAQ12385)

**Edwina Hart:** Caiff prosiectau eu pwyso a'u mesur ar sail gwerth am arian, blaenoriaethau lleol ac ymarferoldeb.

**Partneriaethau Cyhoeddus-Preifat**

**C22 Cynog Dafis:** A yw'r Gweinidog wedi cael unrhyw drafodaethau gyda Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys ynghylch ariannu prosiectau'r Cynulliad drwy bartneriaethau cyhoeddus-preifat yng Nghymru? (OAQ12426)

**Edwina Hart:** Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau gyda'r Prif Ysgrifennydd ar y mater hwn.

**Sicrhau bod Dyraniadau i'r Prif Grwpiau Gwariant yn cael eu Gwario o fewn y Gyllideb**

**C23 David Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn bwriadu eu cymryd i sicrhau bod dyraniadau i'r prif grwpiau gwariant yn cael eu gwario o fewn y gyllideb? (OAQ12417)

**Edwina Hart:** Bwriadaf gwrdd â'm Cyd-aelodau yn y Cabinet i gynnal adolygiad canol-blwyddyn o'r gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Yn ogystal â thrafod unrhyw bwysau a llithriant a ddisgwylir yn y gwariant a fwriadwyd, hoffwn hefyd ystyried unrhyw gynigion ar gyfer dwyn ymlaen adnoddau nas gwariwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Byddaf yn parhau i adolygu'r gwariant drwy gydol y flwyddyn ariannol, gyda'r bwriad o sicrhau bod y gwariant yn ystod blwyddyn ariannol 2001-02 yn adlewyrchu'n agosach y cyllidebau a gymeradwywyd gan y Cynulliad.

**Y Fenter Cyllid Preifat ac Ymrwymiadau Ariannol Hirdymor**

**C24 Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog roi ei hasesiad diweddaraf o effaith prosiectau'r fenter cyllid preifat ar ymrwymiadau ariannol hirdymor y cyrff a ariennir drwy'r gyllideb Gymreig? (OAQ12433)

**Edwina Hart:** Mater i'r cyrff unigol yw penderfynu ynghylch yr ymrwymiadau ariannol hirdymor ac ynghylch a yw prosiectau'r fenter cyllid preifat, y maent yn ymrwymo iddynt, yn fforddiadwy. Dylai'r cyrff cyhoeddus gynnal ymarferiad trylwyr i gloriannu'r opsiynau wrth ystyried y fenter cyllid preifat fel llwybr ariannu a dim ond os yw'n dangos gwerth am arian y byddir yn ffafrio'r opsiwn hwn.

**Polisi'r Cynulliad ar y Fenter Cyllid Preifat**

**C25 Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bolisi'r Cynulliad ar y fenter cyllid preifat? (OAQ12386)

**Edwina Hart:** Mae fy ateb ysgrifenedig atoch ar 11 Mehefin yn delio â'r mater hwn (WAQ12015).

**Fformiwla Barnett**

**C26 Owen John Thomas:** A yw'r Gweinidog wedi cwrdd â Gweinidogion Llywodraeth newydd San Steffan i drafod priodoldeb fformiwla Barnett i anghenion presennol Cymru? (OAQ12389) [W]

**Edwina Hart:** Nac ydw. Fodd bynnag, yr wyf yn cadw golwg bob amser ar weithrediad fformiwla Barnett a'i heffaith ar gyllideb y Cynulliad.

**Sicrhau mai Coed o Gymru a Ddefnyddir i Godi Adeilad Newydd y Cynulliad**

**C27 Peter Rogers:** Pa gamau y gall y Gweinidog eu cymryd i sicrhau mai coed o Gymru a ddefnyddir i godi adeilad newydd y Cynulliad? (OAQ12420)

**Edwina Hart:** Mae'r Cynulliad wedi dweud ei fod yn awyddus i ddefnyddio deunyddiau brodorol i godi adeilad y Cynulliad. Caiff hyn ei wneud pryd bynnag y bo hynny'n bosibl os bydd y gofynion o safbwynt gwerth am arian a chaffael yn caniatáu.

**Defnyddio Cyllid yn Llawn i'r Diben y'i Clustnodwyd ar ei Gyfer yn y Gyllideb**

**C28 Helen Mary Jones:** A wnaiff y Gweinidog sôn am y camau y gall eu cymryd i sicrhau bod pob adran yn defnyddio cyllid yn llawn i'r diben y'i clustnodwyd ar ei gyfer yn y gyllideb? (OAQ12430)

**Edwina Hart:** Bwriadaf gwrdd â'm Cyd-aelodau yn y Cabinet i gynnal adolygiad canol-blwyddyn o'r gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Yn ogystal â thrafod unrhyw bwysau a llithriant a ddisgwylir yn y gwariant a fwriadwyd, hoffwn hefyd ystyried unrhyw gynigion ar gyfer dwyn ymlaen adnoddau nas gwariwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol ddiwethaf. Byddaf yn parhau i adolygu'r gwariant drwy gydol y flwyddyn ariannol, gyda'r bwriad o sicrhau bod y gwariant yn ystod blwyddyn ariannol 2001-02 yn adlewyrchu'n agosach y cyllidebau a gymeradwywyd gan y Cynulliad.

**Ailddosbarthu Cyllid a Glustnodwyd ond nas Gwariwyd**

**C29 Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog sôn am unrhyw gynlluniau sydd ganddi i ailddosbarthu cyllid a glustnodwyd ond nas gwariwyd? (OAQ12431)

**Edwina Hart:** Yr wyf eisoes wedi cyhoeddi adnoddau ychwanegol yn sgîl cyhoeddiad Corus ac ar gyfer delio â chanlyniadau clwy'r traed a'r genau. Unwaith y byddaf wedi cwrdd â'm Cyd-aelodau yn y Cabinet ym mis Medi i adolygu'r gwariant yn ystod y flwyddyn ariannol hon, byddaf yn hysbysu'r Cynulliad o fy nghynigion ar gyfer clustnodi'r ddarpariaeth nas gwariwyd.

**Y Fenter Cyllid Preifat (Gwerth am Arian)**

**C30 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddweud beth yw'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y graddau y mae'r fenter cyllid preifat yn cynnig gwerth am arian yng Nghymru? (OAQ12435)

**Edwina Hart:** Mae prosiectau'r fenter cyllid preifat yn bwrw yn eu blaenau dim ond os gellir dangos eu bod yn cynnig gwell gwerth am arian i'r sector cyhoeddus na'r dewisiadau eraill a gaffaelir fel arfer.